

**Y DRETH GYNGOR
FFURFLEN GAISAM OSTYNGIAD I
FYFYRWYR**



EICH ENW A'CH CYFEIRIAD:

Gwasanaethau Refeniw
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NA

Rhif ffôn: (01352) 704848

Os oes angen i chi gysylltu â ni, rhowch
gyfeirnod eich cyfrif

Os yw myfyriwr yn dilyn cwrs addysg llawn amser, nid yw'n cael ei ystyried yn breswlydd at ddibenion y Dreth Gyngor. Caiff ei 'ddiystyru at ddibenion gostyngiad'.

Mae'n bosibl, felly, y gallwch hawlio gostyngiad yn swm y Dreth Gyngor rydych yn ei dalu, gan ddibynnu ar nifer y bobl eraill sy'n byw acw.

I fedru hawlio gostyngiad, dylai myfyriwr fod yn dilyn cwrs addysg llawn amser mewn canolfan addysg gymeradwy. Rhaid i'r cwrs bara am un flwyddyn academaidd o leiaf, a rhaid i'r myfyriwr orfod astudio am o leiaf 24 wythnos ym mhob blwyddyn academaidd ac am 21 awr yr wythnos yn ystod y tymor. Nid yw dosbarthiadau nos, cyrsiau drwy'r post a hyfforddiant cysylltiedig â'r gwaith yn cael eu hystyried yn gyrsiau llawn amser.

Gallwn benderfynu a fedrwch chi hawlio'r gostyngiad hwn os wnewch chi lenwi, llofnodi a dychwelyd y ffurflen hon i'r cyfeiriad uchod.

I fedru hawlio'r gostyngiad hwn, rhaid i chi anfon tystysgrif myfyriwr a gyflwynwyd gan y coleg/prifysgol gyda'r ffurflen hon. Os na wnewch chi hyn, mae'n bosibl y bydd oedi cyn i ni fedru prosesu'ch cais.

Llenwch y ffurflen mewn **INC DU**

Os oes angen unrhyw help neu gyngor arnoch i lenwi'r ffurflen hon mae croeso i chi ymweld ag un o'n Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu ym Mwcle, Y Fflint, Cei Connah neu Dreffynnon (oriau agor fel y'u hysbysebir)

A	MANYLION EICH CARTREF
----------	------------------------------

1. Rhowch enw pawb sy'n 18 oed a drosodd sy'n byw acw fel arfer, gan gynnwys y myfyriwr.

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw	Dyddiad geni

B	MANYLION Y MYFYRIWR
----------	----------------------------

2. Rhowch enw llawn y person sy'n fyfyrwr llawn amser

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw

3. Rhowch enw a chyfeiriad y ganolfan addysg

Enw'r ganolfan addysg	Cyfeiriad y ganolfan addysg

4. Rhowch fanylion y cwrs:-

Teitl y cwrs

Pryd ddechreuodd y cwrs

--	--	--

Pryd disgwyllir i'r cwrs ddod i ben

--	--	--

C	DATGANIAD
----------	------------------

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir. Os wyf yn cael y Gostyngiad i Fyfyrywr, rwy'n cytuno i ddweud wrth Gyngor Sir y Fflint os bydd y myfyriwr a enwir yn y cais hwn yn symud i fyw neu os bydd yn gadael y cwrs ynghynt na'r disgwyl, neu os bydd rhywun arall dros 18 oed yn dod i fyw ataf.

Eich llofnod

Dyddiad:

Eich enw llawn (Printiwch)

Eich rhif ffôn

Hoffech chi dderbyn bil y dreth gyngor drwy e-bost?

Hoffwn*

Na hoffwn

*Cyfeiriad e-bost:

COFIWCH GYNNWYS EICH TYSTYSGRIF MYFYRIWR GYDA'R FFURFLEN HON.

Diogelu Data

Cytunaf y gall y Cyngor gadw neu brosesu unrhyw wybodaeth bersonol a ddarparaf at ddibenion a welir yn rhybudd cyfredol y Cyngor i'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Cytunaf hefyd y gall y Cyngor rannu unrhyw wybodaeth bersonol a ddarparaf â thrydydd parti yn ôl yr angen er mwyn gwirio'r wybodaeth, atal neu ganfod trosedd a/neu er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaeth statudol neu weinyddol neu fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.